Kirsty Williams AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref at MA-P/KW/0637/17

Mark Reckless AC
Cadeirydd Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig,
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

24 Chwefror 2017

Annwyl Mark,

Diolch i chi am eich llythyr dyddiedig 31 Ionawr ynghylch yr ymchwiliad gan y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig ar ansawdd aer yng Nghymru a chyfraniad y portffolio Addysg i hynny.

Mae band A Rhaglen Addysg ac Ysgolion y 21ain Ganrif yn golygu buddsoddiad o £1.4 biliwn a fydd yn talu am ailadeiladu ac adnewyddu 150 o ysgolion a cholegau ledled Cymru dros y cyfnod o bum mlynedd sy'n dod i ben 2019.

Nod y Rhaglen yw lleihau nifer yr ysgolion a'r colegau sydd mewn cyflwr gwael a gwneud ein hystâd addysg yn fwy effeithlon ac effeithiol.

Mae gofyn i bob adeilad newydd a ariennir drwy'r rhaglen gyrraedd safon ardderchog BREEAM a sgôr EPC o A. Yn ogystal, rydym yn gofyn bod 15% o ddeunyddiau eildro yn cael eu defnyddio.

Mae Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru yn ymwybodol o'r cyfraniad y gallant ei wneud i wella ansawdd aer a gweithredu nifer o fesurau i leihau allyriadau niweidiol. Mae gan bob prifysgol yng Nghymru system rheoli amgylcheddol a gymeradwywyd yn allanol sy'n ymrwymo i leihau'r holl allyriadau niweidiol sy'n deillio o weithrediadau'r brifysgol, gan gynnwys allyriadau niweidiol i aer sy'n deillio o wresogi, teithio ar fusnes, neu weithrediadau eraill o fewn eu rheolaeth. Yn y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd y sector yn llwyddo i leihau'r allyriadau hyn drwy fuddsoddi yn yr ystâd a chodi adeiladau newydd a gwella'r inswleiddio a systemau gwresogi.

Mae pob un o brifysgolion Cymru yn cefnogi hyn drwy ddefnyddio cynlluniau teithio sy'n ceisio annog staff a myfyrwyr i beidio â theithio i'r brifysgol mewn car. Maent hefyd yn ceisio meddwl yn ehangach ac mewn rhai achosion mae hyn wedi arwain at

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ddatblygu cyfleusterau newydd. Enghraifft o hyn yw sicrhau bod llety myfyrwyr yn cael ei adeiladu, cyn belled ag y bo modd, o fewn pellter cerdded i gampws, neu fel arall ddarparu gwasanaethau bws pwrpasol i leihau gorfod teithio mewn ceir.

Hyderaf y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i adroddiad y Pwyllgor ar ansawdd aer yng Nghymru.

Yn gywir



Kirsty Williams AC / AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Cabinet Secretary for Education